Polisi E-ddiogelwch

Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â pholisïau a gweithdrefnau NEW Dance ar amddiffyn a diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Diben y Datganiad Polisi hwn

Mae NEW Dance yn gweithio gyda phlant, teuluoedd ac oedolion agored i niwed fel rhan o'i weithgareddau seiliedig ar ddawns.

Diben y datganiad polisi hwn yw:

- sicrhau mai diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc yw'r flaenoriaeth pan fo oedolion, pobl ifanc neu blant yn defnyddio'r rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol neu ddyfeisiadau symudol,
- cyflwyno i staff a gwirfoddolwyr y prif egwyddorion sy'n arwain ein hymdriniaeth o ddiogelwch ar-lein,
- sicrhau ein bod, fel sefydliad, yn gweithredu'n unol â'n gwerthoedd ac o fewn y gyfraith o safbwynt sut rydym yn defnyddio dyfeisiadau ar-lein,
- mae'r datganiad polisi yn berthnasol i'r holl staff, gwirfoddolwyr, plant a phobl ifanc ac unrhyw un sy'n ymwneud â gweithgareddau NEW Dance.

Fframwaith Cyfreithiol

Mae'r polisi hwn wedi ei lunio ar sail deddfwriaeth, polisi a chanllawiau sy'n ceisio amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed yng Nghymru. Mae crynodebau o'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau allweddol ar gael ar y canlynol:

- cam-drin ar-lein *learning.nspcc.org.uk/child-abuse-and-neglect/online-abuse*
- bwlio *learning.nspcc.org.uk/child-abuse-and-neglect/bullying*
- amddiffyn plant *learning.nspcc.org.uk/child-protection-system*

Credwn:

- na ddylai neb byth brofi camdriniaeth o unrhyw fath,
- y dylai plant allu defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer addysg a datblygiad personol, ond bod angen trefniadau diogelwch ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser.

Cydnabyddwn:

- fod y byd ar-lein yn cynnig llawer o gyfleoedd i bawb; fodd bynnag y gall hefyd beri risgiau a heriau,
- fod dyletswydd gennym i sicrhau bod pawb o'r plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n ymwneud â'n sefydliad yn cael eu hamddiffyn rhag niwed posibl ar-lein,
- fod cyfrifoldeb gennym i helpu cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein, boed nhw'n defnyddio rhwydwaith a dyfeisiadau NEW Dance neu beidio,
- fod gan bob plentyn, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhywedd a ailbennwyd, hil, crefydd neu gredo, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol, yr hawl i amddiffyniad cyfartal rhag pob math o niwed a chamdriniaeth,

- ei fod yn hanfodol gweithio mewn partneriaeth gyda phlant, pobl ifanc, eu rhieni, gofalwyr ac asiantaethau eraill wrth hyrwyddo llesiant pobl ifanc ac wrth helpu pobl ifanc i fod yn gyfrifol yn eu hagwedd at ddiogelwch ar-lein.

Byddwn yn cymryd y camau canlynol i geisio cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel:

- penodi cydgysylltydd diogelwch ar-lein [gallai hyn fod neu beidio â bod yr un person â'r arweinydd enwebedig ar gyfer amddiffyn plant],
- darparu cyfarwyddiadau clir a phenodol i staff a gwirfoddolwyr ar sut i ymddwyn ar-lein trwy ein cod ymddygiad i oedolion,
- helpu ac annog y bobl ifanc sy'n defnyddio'n gwasanaeth i ddefnyddio'r rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol a ffonau symudol mewn ffordd sy'n eu cadw'n ddiogel ac sy'n dangos parch at eraill;
- helpu ac annog rhieni a gofalwyr i wneud beth bynnag a allan i gadw'u plant yn ddiogel ar-lein,
- datblygu cytundeb diogelwch ar-lein i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr,
- datblygu gweithdrefnau clir a chadarn i'n galluogi ni i ymateb yn briodol i unrhyw ddigwyddiadau o ymddygiad anaddas ar-lein, boed gan oedolyn neu blentyn/person ifanc,
- adolygu a diweddaru diogelwch ein systemau gwybodaeth yn rheolaidd,
- sicrhau bod enwau, mewngofnodion, cyfrifon e-bost a chyfrineiriau defnyddwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol,
- sicrhau bod gwybodaeth bersonol am yr oedolion a phlant sy'n ymwneud â'n sefydliad yn cael ei ddal yn ddiogel ac nad yw'n cael ei rannu ond pan fo'n addas gwneud hynny,
- sicrhau mai dim ond ar ôl cael eu caniatâd ysgrifenedig y bydd lluniau o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu defnyddio, a dim ond i'r diben y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer,
- darparu goruwchwyliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ynghylch diogelwch ar-lein,
- archwilio ac asesu risg unrhyw lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a thechnolegau newydd cyn eu defnyddio o fewn y sefydliad.

Os yw camdriniaeth ar-lein yn digwydd, byddwn yn ymateb trwy gymryd y camau canlynol:

- bod â gweithdrefnau diogelu clir a chadarn ar waith ar gyfer ymateb i gamdriniaeth (gan gynnwys cam-drin ar-lein)
- rhoi cymorth a hyfforddiant i bawb o'r staff a gwirfoddolwyr ar fynd i'r afael â phob ffurf o gamdriniaeth, gan gynnwys bwlio/seibrfwlio, camdriniaeth emosiynol, sextio, camdriniaeth rhywiol a chamfanteisio rhywiol,
- sicrhau bod ein hymateb yn ystyried anghenion y person sy'n profi camdriniaeth, unrhyw bobl eraill sy'n gweld a'n sefydliad yn ei gyfanrwydd,
- adolygu'n rheolaidd y cynllun a ddatblygwyd i fynd i'r afael â chamdriniaeth ar-lein, er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau wedi cael eu datrys yn yr hirdymor.

Polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig

Dylid darllen y datganiad polisi hwn ochr yn ochr â pholisïau a gweithdrefnau ein sefydliad, gan gynnwys y Polisi Amddiffyn Plant ac Oedolion Agored i Niwed.

Manylion cyswllt

Cydgysylltydd Diogelwch Ar-lein/Arweinydd Diogelwch

Enw: Angela Fessi

Ffôn/e-bost: angela.fessi@newdance.org.uk

Rydym wedi ymrwymo i adolygu'n polisi a'n harferion da yn flynyddol. Adolygwyd y polisi hwn ddiwethaf ar: ……(dyddiad)

Arwyddwyd: …… [dylai hwn gael ei arwyddo gan y sawl sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddiogelu yn eich sefydliad, er enghraifft yr arweinydd diogelu ar eich bwrdd ymddiriedolwyr].

Dyddiad: ……